



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl gydweithiwr,

25/07/2022

Hoffwn drosglwyddo neges i'm holl gydweithwyr ar ran Judith Paget, Prif Weithredwr GIG Cymru, sydd wedi diolch i holl gydweithwyr y GIG am eu hymroddiad a'u hymrwymiad diflino i ofalu am gleifion yn ystod y tywydd poeth diweddar yn y [llythyr hwn](#).

Mae'r tymheredd a achoswyd gan dywydd poeth yr wythnos diwethaf yn ychwanegu at yr hyn sydd eisoes yn sefyllfa anodd i gleifion a'r tîm. Rwy'n gobeithio bod llacio'r polisi gwisg swyddogol am gyfnod byr o amser wedi eich helpu i deimlo'n fwy cyfforddus wrth weithio. Unwaith eto, mae'r Tîm Gweithredol yn hynod ddiolchgar i chi i gyd, ac maent eisiau i chi wybod bod eich ymdrechion parhaus a gwyb yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi rhai penodiadau mewmol newydd i gefnogi gwaith y Bwrdd Iechyd. Llongyfarchiadau i Mike Bond sydd wedi'i benodi i rôl Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Aciwt a Hannah Evans sydd wedi'i phenodi i rôl Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau nad ydynt yn Aciwt. Bydd Mike a Hannah yn ymgymryd â'u rolau newydd fel secondiad chwe mis. Bydd Mike a Hannah yn gweithio'n agos gyda Matt Temby fel Rheolwr Gyfarwyddwr yn YALL, a gyda'i gilydd byddant yn darparu parhad o fewn y tîm gweithrediadau cyn i Paul Bostock gyrraedd fel Prif Swyddog Gweithredu ym mis Medi.

Mae Rebecca Aylward hefyd wedi'i phenodi'n Ddirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrso Dros Dro yn dilyn penodiad diweddar Jason Roberts yn Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrso. Rwy'n siŵr y byddwch i gyd yn ymuno â mi i longyfarch Mike, Hannah a Rebecca wrth iddynt ddechrau ar eu swyddi newydd.

Aeth y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol (AGM) yn dda iawn yr wythnos diwethaf a hoffwn i a Jan estyn ein diolch i'r rhai a gymerodd yr amser i fod yn bresennol ac anfon eich cwestiynau atom ymlaen llaw. Roeddem wrth ein bodd yn rhannu'r fideo Adolygiad o'r Flwyddyn gyda chi sy'n dangos ein cyflawniadau, ac er ein bod yn aml yn canolbwyntio ar yr anawsterau a'r cyfleoedd i wella, mae'n bwysig myfyrio ar y cerrig milltir, y llwyddiannau a dathlu'r esiamplau disglair niferus o arloesi, gwella a darparu gwasanaeth i'r GIG. Mae'n bleser ei wyllo, felly cymerwch gipolwg ar ein gwefan.

Mae'r Adroddiad Blynnyddol hefyd ar gael ar y wefan [yma](#). Gallwch ddewis darllen y fersiwn lawn neu'r fersiwn gryno.

Gan edrych ymlaen at yr wythnos nesaf, rwy'n gwahodd fy holl gydweithwyr ar draws y sefydliad i ymuno â'r sesiwn Holi nesaf, ddydd Gwener 5 Awst lle bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd, Fiona Jenkins, yn ymuno â mi. Ymunwch â ni ar Teams o 12-1pm i ofyn unrhyw gwestiynau

sydd gennych i mi, neu i Fiona a'i thîm. Byddwch yn gallu cyrchu'r ddolen o'ch e-byst neu'r ap Staff Connect, ac os oes gennych unrhyw gwestiynau gallwch eu hanfon at news@wales.nhs.uk erbyn dydd Mawrth 2 Awst.

Gan ddymuno dechrau gwyh i'r wythnos i chi i gyd,

Suzanne

Canolfan Brechu Torfol y Bae yn cau ei drysau

Caeodd Canolfan Brechu Torfol y Bae ei drysau ddod ar ôl 16 mis o wasanaeth. Mae'r ganolfan, a elwid yn 'Jabs R Us' yn lleol, wedi darparu dros 334,000 o frechlynnau Covid 19 gan ddosbarthu Pfizer ac Astra Zeneca. Y Bae oedd y Ganolfan Brechu Torfol gyntaf yng Nghymru i ddarparu'r brechiad i blant, ac roedd timau a oedd wedi'u lleoli yno hefyd yn cymryd rhan mewn ymchwil glinigol a ddangosodd y gallai'r brechlynnau fflw a COVID 19 gael eu rhoi'n ddiogel gyda'i gilydd.

Cynhaliwyd sesiynau brechu pediatrig hefyd i ddarparu'r brechlyn HPV a'r brechlyn rhag y fflw i unrhyw blentyn na chafodd y brechlynnau fel rhan o ymdrech frechu'r ysgol.

Diolch o galon i'n holl gydweithwyr, partneriaid a gwirfoddolwyr a ddaeth ynghyd i wneud Canolfan Brechu Torfol y Bae yn llwyddiant. Mae hyn yn cynnwys Cyngor Caerdydd, Ambiwylans Sant Ioan, y Groes Goch a'r fyddin a'n cefnogodd i gyflawni'r ymdrech iechyd cyhoeddus enfawr hon.

Mae ein Canolfannau Brechu Torfol yn y Sblot a Holm View yn parhau ar agor ac mae apwyntiadau galw heibio ar gyfer y dos cyntaf

a'r ail ddos yn dal i fod ar gael yma.

Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer cyflwyno Rhaglen Dos Atgyfnerthu'r Hydref a fydd yn dechrau ym mis Medi.

Taflu goleuni ar ein Bwrdd leuenctid ar Ddiwrnod Sgiliau leuenctid y Byd

Wedi'i greu o grŵp amrywiol o bobl ifanc ysbrydoledig, mae aelodau ein Bwrdd leuenctid yn rhoi o'u hamser rhydd i helpu i ysgogi newidiadau yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc eraill.



Mae'r rhaglen yn hynod lwyddiannus, yn enwedig o ganlyniad i'r safbwyntiau mae'n eu cynnig a'r cyfraniadau mae'n eu gwneud at y ffordd rydym yn llunio ein gwasanaethau. Mae dylanwad y rhaglen wedi bod yn sylweddol ac yn parhau i dyfu wrth i fanteision ei gyfraniad ddod yn fwy amlwg.

Mae Ellis Peares, 15 oed, wedi bod yn aelod o'r Bwrdd leuenctid ers ychydig dros flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae'n astudio Almaeneg, Ffrangeg a TG ar gyfer ei arholiadau TGAU ac mae'n aelod o Senedd leuenctid Cymru dros Ganol Caerdydd.

Wrth siarad am ei rôl o fewn y Bwrdd leuenctid, dywedodd Ellis: "Rwy'n credu bod

ymladd dros hawliau pobl ifanc yn hanfodol bwysig. Pan ddes i allan yn hoyw fis Ionawr diwethaf, roedd yna lawer o bethau roeddwn i'n teimlo'n gryf yn eu cylch, gan gynnwys iechyd meddwl pobl ifanc, pobl ifanc yn cael mwy o lais mewn democratiaeth, a rhoi cyfle i bobl ifanc ddweud eu dweud ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw.

"Mae ein gwaith yn amrywio cymaint, ond mae rhai enghreifftiau o waith rydyn ni wedi'i wneud fel Bwrdd Ieuenctid yn cynnwys gwneud fideos TikTok am nyrsys ysgol, siarad â meddygon CAMHS i weld a yw pobl ifanc o'r farn bod y llythyr maen nhw'n ei anfon yn addas a gwneud fideos byr ar sut y gall pobl ifanc gefnogi ffrind sy'n profi cyfnod anodd."

Cyflwyno'r Ganolfan Newid

Yn sgil y pandemig COVID-19, mae mwy o newid a thrawsnewid yn digwydd yn y gwasanaeth iechyd nag erioed o'r blaen. Fel sefydliad mae gennym nifer o brosiectau a rhaglenni proffil uchel sy'n addo cyflawni newid gwirioneddol, ystyrlon a fydd o fudd i'n cleifion, ein cydweithwyr a'r gymuned ehangach.

I gefnogi cydweithwyr i gyflawni newid, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Ganolfan Newid - tîm bach o arbenigwyr profiadol a medrus sy'n rheoli prosiectau, rhaglenni, a phortffolios i gefnogi ac i hwyluso'r rhai sy'n cyflawni newid mewn ffordd sy'n gwneud llwyddiant yn gyraeddadwy. Maent yn gweithio ochr yn ochr â'n timau Gwella a Gweithredu ac Arloesi gan gynnig cyngor, hyfforddiant a chymorth i'r rhaglenni blaenoriaeth a'r byrddau clinigol gan helpu i hybu dull cyson o gyflawni prosiectau a rhaglenni cymhleth.

I gael rhagor o wybodaeth am eu gwasanaethau cymorth, offer, technegau a phrosesau gweler [Canolfan Newid CAF](#). Mae manylion cyswllt ar y wefan, a byddant yn hapus i'ch helpu.

Os ydych wedi'ch lleoli y tu allan i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac yr hoffech wybod mwy am y Ganolfan Newid, cysylltwch ag [Andrew Evans](#) neu [Julia Attwell](#).

Cydnabyddiaeth am wasanaeth hir

Roeddwn am achub ar y cyfle hwn i longyfarch dau gydweithiwr sydd wedi cyflawni 40 mlynedd ac 20 mlynedd o wasanaeth yn y Bwrdd Iechyd yn ddiweddar.



Mae Pauline Hegarty yn dathlu 40 mlynedd yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro pan ymunodd ym 1982 fel Swyddog Domestig yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd (CRI) cyn dod yn Swyddog Clerigol yn ITU yn CRI ym 1985. Ar ôl treulio 15 mlynedd

yn CRI, trosglwyddodd Pauline i ITU yn Ysbyty Athrofaol Cymru am 11 mlynedd arall. Ymunodd Pauline â'r Adran Anestheteg yn 2010 fel derbynnydd lle mae bellach yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos ar ôl iddi ymddeol a dychwelyd.

Mae Pauline yn aelod gwerthfawr o'r tîm ac yn cael ei pharchu'n fawr gan ei chydweithwyr sydd wedi ei disgrifio fel person caredig iawn, gweithgar sy'n ystyried pawb arall cyn hi ei hun a bod ei hegri a'i brwdfrydedd dros fywyd yn heintus.

Mae ymroddiad Pauline i'r Eglwys, gwaith elusennol, ei chariad at y theatr a sioeau byw yn wir wedi ffurfio ei chymeriad. Yn gynharach eleni dathlodd ei phen-blwydd yn 70 oed. Hoffwn ddiolch yn bersonol i Pauline am ei chyfraniad anhygoel i'r GIG drwy gydol ei gyrfa hirsefydlog ac am ei hymroddiad i'r GIG dros y 40 mlynedd diwethaf.

Am ddau ddegawd mae Ivy Bruce-Gokah wedi bod yn mynd gam ymhellach i sicrhau bod ei chleifion yn cael y maeth sydd ei angen arnynt wrth iddynt wella yn yr ysbyty. Mae'r arlwywr ward sy'n gweithio yn yr adran Cyfleusterau, Arlwygo Cleifion yn Ysbyty Athrofaol Cymru nid yn unig wedi bod yn gweini prydau bwyd i gleifion ers 2002 ond mae hi hefyd yn rhoi gwen ar eu hwynebau a chyfeiriwyd ati fel 'llygedyn o heulwen'.

Yn ystod gyrfa Ivy mae hi wedi paratoi mwy na 600,000 o brydau bwyd. "Rwy'n cael boddhad o sicrhau bod y cleifion yn cael yr hyn y maent yn dymuno ei fwyta, hyd yn oed os nad yw ar y fwydlen, rhoi gwên ar eu hwyneb a'u gweld yn gwella," meddai Ivy, a gafodd ei llongyfarch ar ei gwasanaeth hir gan Charles Janczewski Cadeirydd BIP Caerdydd a'r Fro.



"Fe af i gam ymhellach i gael y bwyd y mae'r claf ei eisïau. Rwyf wedi cael cleifion na fyddent yn bwyta dim byd felly gofynnais i nyrs ofyn i'w teulu beth maen nhw'n hoffi ei fwyta fel arfer. Pan ddywedon nhw wrtha i mai selsig oedd hynny, fe wnes i nhw iddi ac ni ddywedais unrhyw beth dim ond eu rhoi o'i blaen. Y peth nesaf daeth y nyrs ataf a dweud 'Ivy, mae fel hud a lledrith maent wedi diflannu' a oedd yn fy ngwneud yn hapus.

"Rydw i bob amser yn gwneud yn siŵr bod gen i gynllun wrth gefn ar gyfer cleifion, weithiau maen nhw eisïau rhywbeth ysgafn fel salad," meddai Ivy, sy'n cael ei galw'n 'Mamma' gan ei chydweithwyr. "Rwyf wedi gweithio ar bob ward yn yr ysbyty gan gynnwys plant a mamolaeth ond mae C1 yn teimlo'n gartrefol iawn i fi."

Mae ei nai Japhet, 26, sydd hefyd wedi ymuno â'r adran Cyfleusterau, Arlwygo Cleifion fel arlwywr, bellach yn gweithio gydag Ivy.

Diwrnod i Weddio BIP Caerdydd a'r Fro – Dydd Mercher 27 Gorffennaf

Hoffai Tîm Profiad y Claf eich gwahodd i ymuno â'r Tîm Caplaniaeth a Gofal Ysbrydol ac Aelodau o gymunedau ffydd amrywiol i gymryd rhan yn ein Diwrnod i Weddio blynyddol.

Ar y diwrnod hwn byddwn yn diolch i'n GIG a'r staff anhygoel yn ein Bwrdd Iechyd. Byddwn hefyd yn gweddio dros iechyd a lles ein cleifion a'n cydweithwyr yn ogystal â'r rhai sydd wedi colli eu bywydau a'u hanwyliaid dros y flwyddyn ddiwethaf.

Efallai nad oes gennych chi ffydd benodol neu ddim ffydd o gwbl. Ni ddylai hyn eich rhwystro rhag cymryd rhan yn y diwrnod hwn. Yn syml, neilltuwch eiliad neu ddwy i feddwl ac ystyried a dangos eich cefnogaeth i'r gwaith anhygoel y mae'r GIG yn ei wneud ar draws ardal Caerdydd a'r Fro.

Yng ngoleuni Dydd i Weddio rydym hefyd am eich annog chi i gyd i gymryd eiliad o'ch amserlenni prysur i ofalu am eich iechyd ysbrydol. [I gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaeth Caplaniaeth cliciwch yma.](#)

Cylchlythyr Haf y Celfyddydau

Mwynhewch ddarllen [Cylchlythyr Haf y Celfyddydau](#) i gael gwybodaeth am ein prosiectau diweddaraf, digwyddiadau sydd i ddod a ffyrdd y gallwch chi gymryd rhan yn Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles.